# Taflen Gofnodi'r Tomenni Glo


buglife Cymru

**Mae priddoedd di-faeth y tomenni glo yn annog ystod amrywiol o blanhigion blodeuol.** Allwch chi weld rhai o'r planhigion hyn?



## Pysen y ceirw
*(Lotus spp.)*

**Mis Mai i fis Medi**
Planhigyn lluosfydd tyfu'n isel gyda chlystyrau o flodau dwfn, melyn gydag ychydig o oren/coch.



## Grug
*(Calluna vulgaris)*

**Mis Gorffennaf i fis Medi**
Perth fach drwchus gyda choesu yn llawn dail bach gwyrdd a blodau pinc/porffor.



## Ysgall Siarl
*(Carlina vulgaris)*

**Mis Gorffennaf i fis Medi**
Planhigion pigog yn blodeuo bob yn ail flwyddyn gyda blodau brown ac aur sy'n edrych fel ysgall wedi hadu.



## Tegeirian y gors deheuol
*(Dactylorhiza praetermissa)*

**Mis Mai i fis Gorffennaf**
Tegeirian porffor-pinc gyda dail heb farciau fel arfer. Gallant fod yn anodd eu hadnabod oherwydd hybrideiddio gyda 'r Tegeirian Brych.



## Cyfansoddion melyn
(Asteraceae)

**Mis Mawrth i fis Hydref**
Planhigion lluosflwydd tebyg i ddant y llew gyda phenau blodau melyn crwn trwchus. Enghreifftiau'n cynnwys Carn yr Efol, Clust y Gath, Heboglys, Barf y Gweilch a Peradyl.



## Wmbeliffrau melyn/gwyn
(Apiaceae)

**Mis Mai i fis Medi**
Nodweddir gan eu hwmbelau siâp parasol, yn cynnwys llawer o flodau bach iawn ar goesau byr. Enghreifftiau'n cynnwys Gorthryfail, Cnau'r Ddaear, Moron Gwyllt ac Efwr.

**Caiff y prosiect ei gyllido drwy Grant Galluogi Adnoddau Naturiol a Llesiant Llywodraeth Cymru drwy raglen gwaith 'Gwent Fwyaf Gydnerth'.** Mae'r rhaglen yn parhau tan haf 2022 ac mae'n gweithio i sicrhau De Ddwyrain Cymru lle mae adferiad mewn natur a chymunedau cynaliadwy yn gwerthfawrogi eu tirluniau a bywyd gwyllt ac yn cymryd rhan ar gyfer eu hiechyd a'u llesiant eu hunain.

**Os hoffech rannu'r bywyd gwyllt yr ydych wedi ei weld, anfonwch eich cofnodion at Ganolfan Cofnodion Bioamrywiaeth De Ddwyrain Cymru (SEWBReC).**

A Resilient Greater Gwent

Ariennir gan Llywodraeth Cymru
Funded by Welsh Government